



Taith gylchol Clywedog



Cefn y ddraig, ger cronfa Clywedog ©Phil Stallard

Manylion y llwybr

Taith gerdded ar hyd crib cefn y ddraig cronfa ddŵr Clywedog gyda golygfeydd trawiadol o ddyfroedd.

Pellter:	5km/3m
Cyfeirnod grid Cychwyn:	SN 9109 8683
Cychwyn What3Words:	agree.laugh.s.drip

Cychwyn

Cychwynnwrth wrth ardal wyllo argae Clywedog. Os ydych chi'n ffodus efallai y bydd dŵr yn cael ei ryddhau o'r argae, sy'n olygfa drawiadol.

Cerddwch ar Llwybr Glyndŵr ar hyd yr ardal wyllo, gyda'r caffi y tu ôl i chi. Ar ben y ffordd fe welwch fynegbost yn eich cyfeirio i'r dde trwy giât i gerddwyr.

Ewch i fyny'r bryn ar y llwybr wedi'i amgylchynu â rhedyn nes i chi gyrraedd mynegbost arall ar ymyl y ffordd. Trowch i'r dde yma a cherdded ychydig fetrau i'r grid gwartheg.

Yn syth ar ôl y grid trowch i'r dde drwy giât mochyn bren. Yma byddwch yn gadael Llwybr Glyndŵr ac yn ymuno â llwybr Hafren Trent sydd â golygfeydd trawiadol. Cerddwch i fyny'r llwybr gwyrdd, gan gadw llinell y ffens i'r dde.

Byddwch yn cael cipolwg ar argae Bwlch y gle i'r dwyrain wrth i chi gychwyn arni.

Ewch drwy ail giât mochyn bren ac fe gewch olygfa wych o argae Clywedog, a'ch man cychwyn, ymhell islaw. Mae'r hen goed yn llinell y ffens yn rhoi syniad i chi o gyfeiriad y prifwynt i fyny yma!

Parhewch â llinell y ffens ar y dde i chi nes i chi weld olion giât mochyn bren arall. Ewch drwodd a dringo i fyny drwy'r blanhigfa llarwydd, gan fynd heibio mainc bicnic ar y ffordd. Mae'r llwybr yn parhau i fyny'r bryn, gan wro i'r chwith tuag at un goeden llarwydd.

Rydych chi nawr ar ben cefn y ddraig. Cymerwch ysbaid ar fainc bicnic arall a mwynhewch olygfeydd o'r ddau argae ar yr un pryd.

Llwybr Glyndŵr TAITH BYR

Taith gylchol Clywedog



Parhewch i lawr y bryn ar y grib, gan fynd drwy redyn a choed. Ar bwynt A mae'r llwybr yn rhannu. Dilynwch y llinell dde sy'n aros ar y grib. Yn fuan ar ôl hyn byddwch yn disgyn i ganllaw pren ac yna, yn sydyn, rydych allan ar bwynt cefn y ddraig, gyda'r dŵr o'ch cwmpas.

Mae eich llwybr yn ôl ar hyd ochr ogledd-orllewinol cefn y ddraig. Gyda'ch cefn at y pwynt, dilynwch y llwybr ar y dde. Cerddwch gyda'r coed ar y chwith i chi, gan edrych dros y dŵr tuag at y clwb hwylio.

Cyn bo hir byddwch yn mynd trwy gât bren a thros bont fechan. Ewch i'r dde yn syth drwy gât bren arall. Croeswch y llwybr pren hir a pharhewch gyda'r dŵr bob amser i lawr i'r dde.

Byddwch yn cerdded i mewn i ardal goediog oer yn fuan. Parhewch nes i chi weld cyfeirbwynt ym mhwynt B, ac yna byddwch yn ail-ymuno â Llwybr Glyndŵr. Trowch i'r

chwith a cherdded i fyny'r grisiau. Parhewch ar hyd Llwybr Glyndŵr am 375m nes cyrraedd y ffordd ger y Tŷ Capel. Cofiwch droi ac edrych y tu ôl i chi ar ben y ddringfa i gael golygfa wych, hir ar hyd y gronfa ddŵr.

Trowch i'r chwith ar y ffordd a cherddwch yn ôl i'r grid gwartheg y gwnaethoch ei chroesi ynghynt. Ewch yn ôl ar hyd Llwybr Glyndŵr yn ôl i'r ardal wyllo.

Parcio: Digon o le parcio am ddim yn ardal wyllo argae Clywedog.

Bws: Amherthnasol

Trên: Amherthnasol

Gwybodaeth gyffredinol: Mae caffi gyda thoiledau ar agor o ddydd Mercher i ddydd Sul yn ardal wyllo argae Clywedog.

